

Adolygiad Datganiad Polisi Rhaglenni S4C, 2007

1 Cyflwyniad

Dyma Adolygiad Awdurdod S4C o berfformiad gwasanaethau cyhoeddus S4C yn erbyn Datganiad Polisi Rhaglenni 2007. Paratowyd yr Adolygiad hwn yn unol â gofynion paragraff 4(1)(b) o Atodiad 2 Deddf Gyfathrebiadau 2003. Mae'r Adolygiad yn seiliedig ar amcanion Datganiad Polisi Rhaglenni S4C 2007.

Bu 2007 yn flwyddyn o ddyfeisgarwch ac uchafbwyntiau i S4C, gyda Chwpan Rygbi'r Byd a datblygiad ein gwasanaethau arlein a gwyllo ar fandllydan yn nodweddion arwyddocaol. Lansiwyd Ymgynghoriad Plant a bu'n gyfnod o weddnewid mewn amryw ffordd arall wrth i'r broses o foderneiddio S4C barhau. Cafodd y Bartneriaeth Strategol gyda'r BBC ei gweithredu. Mae Adolygiad penodol o gyfraniad y BBC yn cael ei baratoi yn unol â thelerau'r Bartneriaeth.

Rhagoriaeth greadigol yw blaenoriaeth gwasanaethau S4C ac i adlewyrchu'r agenda hwn, cyflwynwyd delwedd brand newydd ddechrau'r flwyddyn ar gyfer holl arlwy S4C – ar y sgrîn, ar y we ac yn holl ddeunydd atodol y Sianel. Llwyddodd arddull ddeinamig yr ail-frandio i ennill y brif wobwr 'Pecyn Cyfan' gan yr Undeb Darlledu Ewropeaidd (EBU).

Ym mis Hydref eleni cyhoeddodd yr Awdurdod adroddiad annibynnol a baratowyd gan gwmni DTZ/Ysgol Fusnes Caerdydd yn ymwneud ag Effaith Economaidd S4C ar Economi Cymru 2002-2006. Dengys yr adroddiad fod gweithgareddau S4C yn gyfrifol am gynnal mwy na 2,250 o swyddi yng Nghymru sy'n gyfystyr ag £87m mewn gwerth ychwanegol i economi Cymru yn 2006.

2 Digwyddiadau

2.1 *Cwpan Rygbi'r Byd 2007*

Ar ôl sicrhau'r hawliau i **Gwpan Rygbi'r Byd**, penderfynwyd y byddai'r digwyddiad byd-eang yma yn un o gonglfeini'r flwyddyn ar y Sianel. Sunset + Vine Cymru enillodd yr hawl i ddarlledu'r gystadleuaeth drwy dendr - eu comisiwn cyntaf i S4C. Fe gomisiynwyd nifer o raglenni gwahanol i ehangu'r ddarpariaeth a cheisio apelio at gynifer o'r gynulleidfa â phosibl. Cafodd y gystadleuaeth ei hyrwyddo'n helaeth ar ac oddi ar y sgrîn fel un o flaenoriaethau marchnata mawr y flwyddyn. Fe ddarlledwyd dros 70 awr o raglenni o'r gystadleuaeth gan gynnwys 25 gem fyw a rhaglenni uchafbwyntiau o'r holl chwarae.

Roedd cyrhaeddiad holl raglenni'r gystadleuaeth ar S4C trwy'r Deyrnas Gyfunol yn 811,000, ffigwr sylweddol iawn. Gem unigol Cymru v Siapan ddenodd y nifer mwyaf o wylwyr gyda 52,000 yn gwyllo ar gyfartaledd.

Oddi ar y cae roedd rhaglen **Gwesty Cymru** yn cymryd golwg breifat tu ôl i'r llenni ar dîm a hyfforddwy'r Cymru. Yn anffodus fe aeth Cymru allan o'r gystadleuaeth yn gynt na'r disgwyl a'r gobeithion - ond cafwyd rhaglen arbennig yn edrych ar Gwpan Gareth Jenkins yr hyfforddwr.

Bwriad rhaglen **Monde Gary a Beti** oedd cael barn y cefnogwyr a'r cyhoedd o'r hyn oedd yn digwydd yn ystod y gystadleuaeth. Ar sail yr ymchwil ni chafodd y bwriad ei wireddu'n effeithiol. Roedd **Jonathan** a'i dim yn taflu golwg mwy gogleisiol ar y cyfan, ac ar gyfer y cefnogwyr iau roedd cyfres o **Rygbï 100%**.

Yn ystod yr un cyfnod darlledwyd ffilm uchelgeisiol, ryngwladol, amlieithog y cyfarwyddwr Karl Francis - **Hope**, yn ogystal â rhifyn arbennig o Wynebau Newydd - **Merch y Gadair Ddur**. Roedd tystiolaeth o'n hymchwil fod y ddwy raglen yma wedi llwyddo i ddenu cynulleidfaoedd iau, newydd i'r sianel.

2.2 *YSioe Frenhinol a'r Ffair Aeaf*

Eleni eto fe ddatblygwyd ymhellach ein gwasanaethau o'r Sioe. Darlledwyd mwy o oriau nag erioed drwy gyfrwng tair ffrwd deledu, ar y we a thrwy'r botwm coch. Roedd y ffigyrau gwyllo i'r rhaglenni yn sylweddol uwch na'r flwyddyn flaenorol yn y prynhawn a'r nos, er bod y tywydd echrydus wedi bod yn ffactor. Fe diwniodd 341,000 o bobl yng Nghymru i fewn i arlwy'r Sioe ar S4C.

Am yr ail flwyddyn yn olynol darlledwyd gwasanaeth cynhwysfawr aml-lwyfan o'r Ffair Aeaf yn Llanelwedd. Cwtogwyd ychydig ar oriau'r dydd er mwyn cysoni negeseuon amser cychwyn a gorffen y ddarpariaeth. Cafwyd rhaglenni mwy swmpus ag egniol yn y dydd o'r herwydd gan fod modd paratoi pecynnau cryno a chwim yn y ffenest rhwng y bore a'r prynhawn.

2.3 Yr Eisteddfodau

Darlledwyd dros 110 awr o raglenni o **Eisteddfod yr Urdd** eleni. Dilynwyd patrwm darlledu tebyg i'r hyn a gafwyd yn y blynyddoedd diwethaf, gyda rhaglen foreol yn cael ei dilyn gan ddarlledu di-dor ar ddigidol a rhaglenni yn ystod y prynhawn ar S4C analog. Roedd cyfle hefyd i gael **Sedd yn Y Pafiliwn** ar S4C2 trwy gydol y cystadlu dyddiol hyd at 18:00.

Fe ymunodd y gantores boblogaidd Elin Manahan Thomas a thîm cyflwyno **Eisteddfod Gydwladol Llangollen**. Cafwyd ymateb eithriadol i'r wefan, cafwyd dros 2.5 miliwn o drawiadau o dros 80 o wledydd gwahanol, gyda dros 250,000 o glipiau fideo yn cael eu gwyllo.

Yn **Eisteddfod Genedlaethol Sir Fflint a'r Cyffiniau** cafwyd mwy o ddarlledu ar S4C2 o'r Babel Lên.

Ar draws holl ddigwyddiadau'r Haf ar S4C, bu i 1.1 miliwn o bobl gwahanol ar draws y Deyrnas Gyfunol diwnio i mewn i'r arlwy yn ei gyfanrwydd.

2.4 Etholiad y Cynulliad

Darlledwyd mwy o raglenni nag erioed o'r blaen adeg Etholiad y Cynulliad a gynhaliwyd ar Ebrill 2il. BBC Cymru oedd yn gyfrifol am angori'r ddarpariaeth, gyda Dewi Llwyd, Rhuanedd Richards a Vaughan Roderick yn cyflwyno datblygiadau'r noson a chafwyd esboniadau arbenigol oddi wrth y Dr Richard Wyn Jones. Yn ogystal cafwyd tair rhaglen arbennig o **Pawb a'i Farn** gan BBC Cymru ac fe gynhyrchodd ITV Cymru rifynnau arbennig o **Hacio** a'r **Byd ar Bedwar**. Cafwyd hefyd rifyn arbennig o **Ffermio**.

Yn y rhaglen arbennig **Bandit o'r Senedd** rhoddwyd cyfle i wleidyddion ddewis eu hoff ganeuon mewn ymgais i apelio at gynulleidfa wahanol.

2.5 Dathlu Pen-blwydd S4C yn 25

Ym mis Tachwedd eleni, dathlodd S4C ei phen-blwydd yn bum mlwydd ar hugain. Roedd hwn yn achlysur pwysig i bawb sydd wedi bod ynghlwm â'r Sianel dros y chwarter canrif ddiwethaf.

Gan fod cynifer o gyfresi newydd cyffrous i'w lansio yn ystod y cyfnod canolbwyntiwyd ar wead o ddathlu drwy gyfrwng cyfresi oedd ag apêl eang a dilyniant ffyddlon gan drwch o wylwyr yn hytrach na cheisio creu prosiectau gwbl newydd.

Crëwyd rhaglen dri chwarter awr o bigion **Cefn Gwlad** lle bu Dai Jones yn ein tywys drwy gynfas cyfnewidiol, llu o gymeriadau a chymunedau sydd erbyn hyn wedi newid am byth. Cynhaliwyd Cymanfa Ganu arbennig awr o hyd fel cyfraniad **Dechrau Canu Dechrau Cannol** i'r dathlu o gapel Tabernacl Treforys. Talu teyrnged i bum cyfnod o brif symudiadau yn y maes a wnaeth y gyfres **Bandit**. Defnyddiwyd y dathlu fel ffordd o gael rhai o'n prif wynebaw i gyfrannu at raglen y **Cwprdd Dillad** ac **o4 Wal**. Er mwyn rhoi'r cyfan yn ei gyd-destun hanesyddol a gwleidyddol cafwyd dwy raglen swmpus gan y BBC **Teledu'r Cymry** a gyflwynwyd gan Dewi Llwyd.

2.6 Marwolaeth Ray Gravell

Daeth y newyddion trist am farwolaeth y chwaraewr rygbi, y darlledwr a'r arwr cenedlaethol Ray Gravell ar Hydref 31. Fe ddarlledwyd ei angladd o Barc y Strade ynghyd â rhaglen deyrnged wych – **Grav**. Ddiwrnod wedi ei farwolaeth neilltuwyd rhaglen **Wedi 7** i gofio amdano. Cafwyd cyfraniadau dirdynol ac arbennig gan ei gyfeillion.

3 Ffuglen

Calon Gaeth oedd y gyfres ddrama gyntaf i gyrraedd y sgrîn ym mis Ionawr. Roedd hon yn gyfres gyfnod ac fe ddenodd sgoriau gwerthfawrogiad arbennig o uchel gan y gynulleidfa.

Cafodd y ddwy gyfres ddrama o stabl Fiction Factory **Caerdydd** a'r **Pris** eu hyrwyddo'n eang. Roedd nod y cyfresi yma'n hollol wahanol i **Calon Gaeth**. Mae nhw wedi eu hanelu at gynulleidfa fwy ifanc sy'n gyfarwydd â defnyddio'r we. Roedd ail gyfres y ddrama ddinesig **Caerdydd** wedi ei saethu'n hyderus gyda thrac sain bwrpasol yn gwneud defnydd o'n bandiau a'n cantorion mwyaf cyfoes, gyda'r gynulleidfa yn mwynhau natur cyfoes y gyfres. Roedd **Y Pris** yn gyfres heriol yn torri tir newydd ym maes ffuglen yng Nghymru, gyda'r gynulleidfa darged yn gwerthfawrogi'r ffresni a'r elfennau newydd hynny. Llwyddodd i gyrraedd cynulleidfa iau yn ogystal â gwylwyr hŷn. Mae'r ddrama yn plethu'r treisgar gyda'r doniol, a'r hiwmor du yn adlewyrchu llais unigryw yr awdur. Dyma gynnyrch Tim Price enillodd gystadleuaeth Ffilm Fer y Sianel rai blynyddoedd yn ôl.

Enillodd **Cowbois ac Injans** y ddrama orau yn yr ŵyl Cyfryngau Celtaidd.

Mae cymeriadau newydd ifanc wedi bod yn allweddol yn natblygiad **Pobol y Cwm** eleni ac mae gwerthfawrogiad da i'r gyfres yma hefyd. Dangoswyd chweched gyfres **Tipyn o Stad** ac ymunodd sawl cymeriad â Maes Menai, yn eu plith yr actor a'r canwr Bryn Fôn. Cafodd gwefan newydd cyffrous ei llunio ar gyfer cyfres 2007 **Rownd a Rownd** er mwyn adeiladu ar frwdfrydedd a diddordeb y gwylwyr ifanc, cynulleidfa sy'n gwyllo'r rhaglen yn gyson.

Cafodd cyfres gomedi oedd wedi ei lleoli yn y gogledd **Man Del** ei dangos yn yr hydref. Bu'n rhaid adolygu'r gyfres oherwydd sensitifrwydd ynghylch portread o gymeriad anabl. Penderfynwyd nad oedd y portread yn gyson â pholisi S4C ac o ganlyniad cafodd rhai golygfeydd eu golygu.

4 Chwaraeon

Fel rhan o'n partneriaeth gyda'r BBC, profodd gemau clybiau egscliwsif yn boblogaidd yn y **Clwb Rygbi - Cynghrair Magners**. Fe gynigiwyd hefyd nifer o gemau byw o **Gynghrair y Principality a Chwpan Konica Minolta**. I atgyfnerthu ein harlwy rygbi dangoswyd uchafbwyntiau **Cwpan Heineken**, y gorau o rygbi Ffrainc yn **Le Rygbi** a golwg hyd yn oed ehangach yng nghystadleuaeth **7 bob ochr y Bwrdd Rygbi Rhyngwladol** ac yn rhaglen **Rygbi'r Byd**.

Er mwyn ymestyn ein darpariaeth rygbi ar nos Sadwrn yn ystod yr Haf fe ymrwymodd S4C i ddilyn tîm rygbi tri ar ddeg y Celtic Crusaders orffennodd ar frig eu cynghrair. Un o nodau **Y Clwb Rygbi X111** oedd ymestyn cyrhaeddiad unigryw'r sianel.

O ran pêl-droed cafodd **Sgorio** ei hail-lansio gyda'r pwyslais ar ddangos goliau gorau'r byd a sgwrsio difyr yn y stiwdio, gydag ymchwil ar ein Panel Ymateb yn dynodi ymateb ffafriol ymysg y gwylwyr. Fe ddangoswyd gem ryngwladol **Cyprus v Cymru** yn fyw ac yn ecsgliwsif. Fe barhaom â'n hymrwymiad i gynghrair pêl-droed Cymru yn y **Clwb Pêl-droed**.

Er mwyn ymestyn brand **Rasus** a thyfu rhaglen **Ar Garlam** cafwyd cyfres o dair rhaglen hanner awr **Rasus ar Garlam** yn dangos uchafbwyntiau rasys pwynt i bwynt gorau Cymru. Uchafbwynt y tymor trotian unwaith eto yn dilyn cyfres arall o **Rasus** oedd y ddarpariaeth fyw o **Rasus Tregaron**.

Ar ddechrau mis Rhagfyr roedd y gyfres **Ralio** yn dathlu ei hanner canfed rhaglen. Eleni darlledwyd bwletinâu nosweithiol o rownd olaf Pencampwriaeth y Byd sef **Rali Cymru**. Roedd yn gyfle i safleoli ein hunain yn brif ddarlledwr achlysur a digwyddiad cenedlaethol sydd hefyd ar y llwyfan rhyngwladol.

Eleni eto roedd rhaglenni o **Ras yr Wyddfa** a **Marathon Eryri**. Yn dilyn llwyddiant Gem y Ganrif yn 2006 crëwyd rhaglen ddogfen arall oedd yn edrych ar stori clwb pêl-droed Caerdydd yn curo Arsenal yn 1927 yn **Cwpan Caerdydd**.

Oherwydd newidiadau i'r tîm hyfforddi cenedlaethol, gohiriwyd **Brad Rygbi Cymru** tan ddiwedd tymor rygbi 2008.

5 Diwylliant a Cherddoriaeth

Codi Canu oedd cyfres gerddoriaeth newydd S4C. Ffurfiwyd pedwar côr o leisiau cymysg o gefnogwyr y pedwar tîm rygbi rhanbarthol sef y Gweilch, Gleision Caerdydd, Dreigiau Gwent a'r Sgarlets. Roedd y corau

wedyn yn cystadlu yn erbyn ei gilydd gyda'r enillydd yn cael cyfle i ganu cyn y gêm ryngwladol rhwng Cymru a Ffrainc yn Stadiwm y Mileniwm. Côt y Dreigiau oedd yn fuddugol. Un o gryfderau'r gyfres yw'r ffaith iddi ddenu llawer o bobl ddi-Gymraeg i fod yn rhan annatod o raglen ar S4C a bod iddi elfen gymunedol gref iawn. Yn gerddorol llwyddodd y gyfres i gyflwyno elfennau sylfaenol o ganu corawl, ac i gyflwyno hanes a chefnidir y caneuon. Roedd y trafod a'r defnydd o'r we yn allweddol i'r rhaglen hon, ac roedd ein hymchwil ar y gyfres yn awgrymu fod y rhaglen yn cael ei gweld fel syniad gwreiddiol a bywiog gyda chynulleidfa eang.

Yng nghystadleuaeth **Côt Cymru 2007** - Côt Cywair, dan arweinyddiaeth Islwyn Evans ddaeth i'r brig gyda chanmoliaeth uchel y panel o feirniaid rhyngwladol. Er mwyn cael rhagor o bobl ifanc yn rhan o'r rhaglen ychwanegwyd categori newydd eleni, sef corau plant o dan 16 oed.

Darllwyd cystadleuaeth **Cân i Gymru** o'r Afan Lido. Einir Dafydd a'r prifardd Ceri Wyn Jones oedd yn fuddugol gyda'r gân Blwyddyn Mas. Ar yr un penwythnos penderfynwyd cynnal digwyddiad **Emyn i Gymru** fel rhan o gyfres **Dechrau Canu Dechrau Canmol**. Y bwriad oedd adeiladu a chryfhau brand Cân i Gymru. Fe ddewiswyd 10 o emynau gan banel o feirniaid, yn arweinyddion corau, prifardd ac arbenigwyr ar emynau, cafodd pleidlais wedyn ei chynnal ar y we i'r cyhoedd ddewis eu hoff emynau o blith y 10. Pantyfedwen ddaeth i'r brig, a chafwyd rhaglen o ganu cynulleidfaol lwyddiannus iawn dan arweiniad Alwyn Humphreys.

Comisiynwyd tair rhaglen awr gan gynnwys dwy raglen o uchafbwyntiau ac un cyngerdd gan Catrin Finch ddarllwyd adeg y Nadolig o **wyl Jazz HSBC Aberhonddu**.

Daeth sawl rhaglen eto o **wyl y Faenol**, gyda'r Gala Operatig yn denu cyrhaeddiad cynulleidfa uchel iawn o 171,000 o bobl ar draws y DU.

Cynhaliwyd yr **wyl Gerdd Dant** ym Mhontrhydfendigaid ar Dachwedd 10fed, ac fe ddarllwyd dros wyth awr o'r cystadlu ar S4C ac S4C Digidol yn ystod y diwrnod, ynghyd â rhaglen uchafbwyntiau ar y nos Sadwrn canlynol. Hefyd fe ddarllwyd rhaglen arbennig o **Dalwrn y Beirdd**.

Cafwyd cyfres newydd o'r **Sioe Gelf** oedd yn cynnwys rhai rhaglenni arbennig megis Cae'r Gors, sef hanes adnewyddu cartref Kate Roberts. Unwaith eto gwelwyd y gyfres i bobl ifanc **Bandit** ac **Ysgoloriaeth Bryn Terfel** ar y sgrîn.

Rhai o uchafbwyntiau cerddorol y Nadolig oedd **Cyngerdd Dennis O'Neil a Kiri Te Kanawa** o Ganolfan y Mileniwm a'r **Carolau o Langollen**, a lwyddodd i gael cyrhaeddiad cynulleidfa uchel ar draws y DU o 106,000.

6 Ffeithiol

Tywysogion oedd un o uchelfannau dechrau'r flwyddyn. Cyfres aml-lwyfan oedd hon yn cynnig golwg ar y Tywysogion Cymreig ac ar yr oesoedd canol yng Nghymru gan eu gosod mewn cyd-destun cyfoes. Roedd ymchwil yn awgrymu y byddai rhai elfennau o'r gynulleidfa wedi gwerthfawrogi tôn ysgafnach, ond roedd gwerthfawrogiad hefyd am raglen swmpus a sylweddol. Y Dr. Richard Wyn Jones oedd cyflwynydd y gyfres ac ef hefyd oedd cyflwynydd y gyfres **Datganoli** lle cafwyd dadansoddiad o hanes gwleidyddol y 10 mlynedd ddiwethaf yng Nghymru.

Yn **Iolo yn Hedfan** gwelwyd ffotograffiaeth syfrdanol a dewrder Iolo wrth iddo dysgu hedfan gyda'r adar.

Cafwyd amrywiaeth o raglenni dogfen eleni eto dan faner **Cefn Gwlad, Wynebau Newydd, O'r Galon** ac **O Flaen dy Lygaid**. Fe lwyddodd yr amrywiaeth rhaglenni i ddenu cynulleidfaoedd eang ac amrywiol. Yn ogystal â rhaglenni arferol **Ffermio** a'r bwletinâu cafwyd rhaglenni arbennig o'r sioeau bach.

Ym maes dogfen roedd y rhaglen awr a hanner o hyd **Fel Arall** yn gofnod uchelgeisiol o brofiad pobl hoyw yng Nghymru. Cafodd y rhaglen ei dangos gyntaf fel rhan o wyl Ffilmiau Hoyw Iris yng Nghaerdydd ym mis Hydref.

Dros y Nadolig cafwyd rhaglen ddogfen arbennig yn edrych ar un o deuluoedd llenyddol amlycaf Cymru, **Bois Parc Nest**.

7 Newyddion a Materion Cyfoes

Ym maes Newyddion a Materion Cyfoes darllwyd y brif raglen **Newyddion** a bwletin byr yn ystod yr oriau brig yn gyson â thargedau Ofcom.

Ail-lansiwyd **Manifffesto** fel **CF99**. Mae'r rhaglen bellach yn cael ei dangos ar nos Fercher ar adeg wylïo fwy poblogaidd. Dangoswyd hefyd raglenni **Yr Wythnos**, **Pawb a'i Farn** a **Taro 9** a gynhyrchwyd gan BBC Cymru a chafwyd cyfresi pellach o'r **Byd ar Bedwar** a **Hacio gan** ITV Cymru.

Darllledwyd **Wedi 3** ar wasanaeth S4C analog (yn gydamserol â digidol) fel arbrawf er mwyn rhoi blas i'r gynulleidfa gyfan o ran o'r arlwy digidol. Bu'r arbrawf yn llwyddiant, ac mae Wedi 3 wedi ennill ei blwy ar y gwasanaeth analog ac yn parhau i gael ei darlledu ar analog a digidol. Yn ogystal â llwyddiant Wedi 3, cynyddodd **Wedi 7** ei apêl.

8 **Adloniant ac Adloniant Ffeithiol**

Yn ystod y flwyddyn daeth sawl cyfres adloniant i'r sgrîn oedd yn ffrwyth cytundebau datblygu. Yn eu plith roedd **Pws**. Yn y gyfres gwelwyd Dewi Pws yn crwydro ac yn cymdeithasu gyda thrigolion cymunedau ledled Cymru.

Cyfres adloniant newydd i'r teulu sy'n creu sêr o bobl gyffredin anghyffredin yw **Cadair Fawr Eleri Siôn**. Cawn gwrdd â chymeriadau o bob math ac o bob cefndir ac mae'r cysyniad yn ddatblygiad ar y sioe sgwrs draddodiadol. Er mwyn cwrdd â phobl o wahanol gymunedau mae'r rhaglen hon hefyd yn cael ei recordio mewn gwahanol leoliadau.

Yn 2006 comisiynwyd rhaglen i ddilyn **Glyn ac Imogen** ar ôl iddyn nhw adael tŷ'r Brawd Mawr. Cafodd y rhaglen gryn sylw yn y wasg Brydeinig ac fe lwyddodd i fod yn un o'r rhaglenni mwyaf llwyddiannus o ran cyrhaeddiad eleni, gan ddenu 171,000 o bobl gwahanol ar draws y DU. Roedd Glyn Wise hefyd yn un o'r sêr fu'n cynorthwyo yn **Y Briodas Fawr** eleni.

Cyfres arall gynhyrchwyd i apelio at y to iau yn ogystal â phontio'r selogion rygbi oedd **Gwragedd Rygbi**, gydag un rhaglen ym mis Mawrth yn llwyddo i gyrraedd 112,000 o bobl ar draws y DU. Dychwelodd yr hen ffefrynnau **Cwpwrdd Dillad**, **04Wal** a'r **Ty Cymreig**. Cafodd elfennau newydd eu cyflwyno i ddod a ffresni i'r **Cwpwrdd Dillad** sef trawsnewid cwpwrdd dillad person sydd wedi gofyn am gymorth gyda'i delwedd. Fe gafwyd ymateb ffafriol i'r elfen newydd honno.

Ar ôl bod yn Ffrainc gyda'i gyw-gogyddion y llynedd, Yr Eidal oedd lleoliad **Casa Dudley** eleni gydag ymchwil yn dangos fod y gynulleidfa yn werthfawrogol ac yn edrych ymlaen at y gyfres nesaf.

Ym maes comedi cafwyd cyfresi newydd o **Cnex** a **Mawr** ac oherwydd poblogrwydd ei gymeriad cafodd **PC Leslie Wynne** sioe arbennig ei hun. Yn ystod y Nadolig roedd cyfle i ddilyn helyntion Dai Jones wrth iddo geisio goresgyn ei ofn o ddŵr a dysgu nofio yn **Dai'n y Dŵr**.

Daeth S4C i'r brig unwaith eto ym maes animeiddio gyda Griffilms yn ennill y wobwr animeiddio gorau am **Map yr Underground** yn yr Wyl Gyfryngau Celtaidd 2007.

9 **Plant**

Bu 2007 yn flwyddyn bwysig ac allweddol i S4C ym maes plant gyda chyhoeddi ymgynghoriad ym mis Gorffennaf yn datgan bwriad Awdurdod S4C i sefydlu gwasanaethau newydd ar gyfer plant a phobl ifanc. Yn dilyn cyhoeddi'r Ymgynghoriad cafwyd ymateb calonogol i fwrdd S4C oddi wrth dros bum cant o unigolion. Yn unol â chynlluniau'r Sianel i hyrwyddo twf cynaliadwy yn y sector gynhyrchu annibynnol, ac yn dilyn proses dendro ym mis Mawrth, fe allanolwyd dolenni **Planed Plant** a **Planed Plant Bach** i gwmni Boomerang. Mae elfen ryngweithiol gref wedi'i sefydlu.

I'r plant iau dangoswyd y cartŵn newydd **Holi Hana** (ffrwyth cyd-gynhyrchiad rhwng S4C, cwmni Calon, Five ac RDF (gyda chefnogaeth yr Undeb Ewropeaidd a Chynulliad Cenedlaethol Cymru)).

Yn unol â Datganiad Polisi Rhaglenni 2007, datblygwyd y ddarpariaeth i blant gan ganolbwyntio'n benodol ar y gynulleidfa rhwng 10 a 15 oed. Fel rhan o'r Bartneriaeth Strategol gyda'r BBC, daeth rhaglen **Mosquito** i'r sgrîn yn ystod wythnos gyntaf Tachwedd - rhaglen ffeithiol ond adloniannol ar gyfer pobl ifanc. Cafodd tymor **Ffeil** ei ymestyn hefyd, ac er mwyn cryfhau'r ddarpariaeth i blant hŷn darllledwyd cwis chwaraeon newydd sbon **Pencampau**. Cyfres newydd arall oedd **Dawnstastig** sy'n gyfle i blant o bob oedran gystadlu ym maes dawnsio.

O'u stiwdio yng Nghaernarfon mae **Uned 5** yn parhau i fod yn gonglfaen darlledu nos Wener, ac ymhlith y cyfresi eraill a ddychwelodd roedd **Atom, Mama Mia, Y Fet a Fi, Popty** a **Stamina**. Un o uchafbwyntiau'r Nadolig oedd y ffilm animeiddiedig **Gelert**.

Wrth gael eu holi yn ystod y flwyddyn mae plant a phobl ifanc wedi dangos eu bônt yn gwerthfawrogi nifer o'r cyfresi plant, rhaglenni i'r teulu, dramâu, comedïau a rhaglenni chwaraeon. Mae'n gwaith ymchwil hefyd yn dangos gwerthfawrogiad o raglenni gwreiddiol o Gymru.

10 **Y Tywydd**

Yn dilyn proses dendr, allanolwyd darparu'r gwasanaeth **Tywydd** i ITV Cymru. Gyda graffeg newydd i gydblythu â brand newydd S4C, mae'r tîm ar ei newydd wedd yn cyflwyno rhagor o fwletinau o leoliadau y tu allan i'r stiwdio ac yn rhoi agwedd fwy newyddiadurol i'r gwasanaeth.

11 **Tendrau**

Yn unol â Pholisi Tendro S4C cynhaliwyd prosesau tendr ar gyfer y gwasanaethau canlynol yn ystod y flwyddyn:

Cynnwys Rhaglenni:

Dybio Rhaglenni a Chyfresi Animeiddiedig
Cwpan Rygbi'r Byd
Clwb Rygbi XIII
Cyprus v Cymru
Gŵ 1 Cerdd Dant
India
Rwsia
Dolenni Cyswllt – Planed Plant a Planed Plant Bach (allanoli cynhyrchu)
Tywydd (allanoli cynhyrchu)

Erail:

Is-deitlau Hwyr a Byw

12 **Apêl S4C 2007**

Yn 2007 penderfynwyd ail gyfeirio'r apêl a symud i ffwrdd o godi swm ariannol i un elusen.

Cyhoeddodd S4C apêl 2007, Hybu Rygbi, yn canolbwyntio ar helpu achosion sy'n agos at galonau cymunedau rygbi yng Nghymru. Cynigwyd cyfleoedd i glybiau, cymdeithasau, unigolion ac elusennau sy'n gysylltiedig â rygbi i ddirchafu proffil eu gweithgareddau, ac i'w cynorthwyo nhw i gynnal eu digwyddiadau a chodi arian eu hunain.

Mae'r digwyddiadau wedi amrywio o gynnis gwobrau, cefnogi timau plant ac ieuenctid a phartneru gyda'r sector sydd yn darparu rhaglenni ar gyfer S4C, a chodi ymwybyddiaeth am y digwyddiadau drwy'r cynnwys a'r personoliaethau.

Yn sgîl y newid i'r Apêl, penderfynodd ymddiriedolwyr Apêl S4C¹ ddirwyn elusen gofrestredig yr Apêl i ben ym mis Tachwedd.

13 **Gwasanaethau Mynediad**

13.1 ***Is-deitlo***

Darparwyd is-deitlau Saesneg i ehangu apêl ein rhaglenni ar gyfer pobl di-Gymraeg, y byddar a'r trwm eu clyw. Roedd is-deitlau Saesneg ar 81.1% o oriau rhaglenni Cymraeg S4C ar analog yn ystod 2007. Roedd hyn yn uwch na'r targed o 80%.

¹ Apêl S4C Appeal, elusen gofrestredig, rhif 1097972, a ddiddymwyd yn Rhagfyr 2007.

Darparwyd is-deitlau Saesneg ar 76.3% o wasanaeth S4C Digidol (yn erbyn targed Ofcom o 71%). Yn ogystal, darlledwyd llawer o'n rhaglenni gydag is-deitlau agored, gan gynnwys rhaglenni megis omnibws **Rownd a Rownd** a **Phobol y Cwm**.

Yn ogystal ag is-deitlau ar gyfer rhaglenni S4C, roedd is-deitlau ar gyfer pobl fyddar a thrwm eu clyw hefyd ar gael ar raglenni Channel 4 a ddarlledwyd ar wasanaeth analog S4C.

Cyflawnwyd y targed o 10 awr yr wythnos o is-deitlau Cymraeg ar y gwasanaeth analog ac yn gydamserol ar y gwasanaeth digidol ar gyfer y byddar a'r trwm eu clyw Cymraeg eu hiaith a dysgwyr Cymraeg.

13.2 Sain-ddisgrifio ac Arwyddo

Darperir gwasanaeth sain-ddisgrifio ar lawer o raglenni ar S4C Digidol ar gyfer y deillion a'r rhannol ddall. Ceir yn y gwasanaeth sylwebaeth lafar i lenwi'r cyfnodau pan nad oes unrhyw ddeialog, i gynnwys disgrifiadau ychwanegol sy'n cyfoethogi mwynhad y gwyliwr. Darparwyd sain-ddisgrifiad ar 9.6% o raglenni ar S4C Digidol yn erbyn targed Ofcom o 8% am y flwyddyn.

Mae rhai rhaglenni ar S4C Digidol yn cael eu dangos gydag arwyddwr BSL (British Sign Language). Lleolir y rhaglenni hyn mewn slot rheolaidd ar brynhawniau Sadwrn gyda 2.1% o'r gwasanaeth gydag arwyddion agored yn erbyn targed Ofcom o 2%.

14 Ymchwil

Yn ystod y flwyddyn cyfrannodd S4C unwaith yn rhagor tuag at gynnal panel BARB - y corff sydd yn mesur ffigyrau gwyllo darlledwyr. Mae ffrwyth gwaith ymchwil yn cynorthwyo S4C i lunio'r Datganiad o Bolisi Rhaglenni ac yn ogystal i asesu perfformiad ei gwasanaethau yn yr Adolygiad hwn.

15 Gwybodaeth i Wylwyr

Darparwyd gwasanaeth gwybodaeth y Gwifren Gwylwyr (**ffôn: 0870 600 4141, drwy'r we: <http://www.s4c.co.uk/c_contact_form.shtml>**). Mae'r Wifren yn darparu gwybodaeth am ein gwasanaethau a'n rhaglenni ac yn ogystal mae'n delio gydag ymholiadau a chwynion a dderbynnir oddi wrth ein gwylwyr.

Mae safle we S4C hefyd yn darparu ystod eang o wybodaeth am raglenni S4C. Eleni datblygwyd y ddarpariaeth i gynnwys rhagor o safleoedd yn ymwneud â rhaglenni penodol ac yn ogystal y gallu i wyllo rhaglenni ar lein.

16 Llythrennedd y Cyfryngau

Ym mis Rhagfyr 2007 cyhoeddodd S4C Gynllun Llythrennedd y Cyfryngau ar gyfer 2008. Mae copi ar gael ar y wefan.

17 Hyfforddiant a Thalent

Darparwyd hyfforddiant i staff S4C yn unol â blaenoriaethau strategol y busnes. Sicrhawyd trefniadau addas i godi lefel sgiliau'r diwydiant drwy fuddsoddi mewn cynlluniau hyfforddiant drwy Cyfle a darparwyr hyfforddi eraill. Mae gwaith y grŵp arianwyr (sef TAC/Cyfle/S4C) yn parhau er mwyn sicrhau bod yr hyfforddiant a ddarperir gan Cyfle yn unol â gofynion y sector gyfan.

18 Ysgoloriaethau

Yn ystod y flwyddyn dyfarnwyd ysgoloriaethau i'r canlynol:

Ysgoloriaeth Athletau:

Lianne Clarke, Non Stanford, David Guest a Brigid Eades 2007/2009

Ysgoloriaeth Golff:

Richard Merchant a Tara Davies 2006/2007

Jamie Howe a Katherine O'Connor

2007/2008

Ysgoloriaeth T. Glynne Davies:

Gwenllian Glyn

2006/2007

Elen Moore

2007/2008

Ysgoloriaeth i fyfyrwr NFTS ym maes animeiddio:

Sally Pearce

Ysgoloriaeth Syr Geraint Evans:

(ariannir yr ysgoloriaeth hon ar y cyd gyda'r BBC)

Jennifer Hazel Walker, Allan Smith, Ruth Greenaway-Robbins a Flora York-Skinner

Yn ogystal dyfarnwyd ysgoloriaeth arbennig i'r pianydd Llŷr Williams.

19 **Targedau a Chanlyniadau Gwasanaeth 2007**: Atodiad 1

Awdurdod S4C
Chwefror 2008

Targedau a Chanlyniadau Gwasanaeth - 2007
Service Targets and Results – 2007

Rhaglenni <i>Programmes</i>	Targed <i>Target</i>	Canlyniad <i>Result</i>
Amser darlledu a roddwyd i gynyrchiadau o'r sector annibynnol <i>Broadcasting time allocated to productions from the independent sector</i>	25%	83%
Rhaglenni gwreiddiol (oriau brig 18.00 i 22.30)* <i>Original programmes (peak hours 18.00-22.30)*</i>	90%	100%
Rhaglenni gwreiddiol (holl oriau) <i>Original programmes (all hours)</i>	80%	98%
Rhaglenni Materion Cyfoes (holl oriau) <i>Current Affairs Programmes (all hours)</i>	60 awr y flwyddyn <i>60 hours per annum</i>	85 awr <i>85 hours</i>
Rhaglenni Materion Cyfoes (oriau brig 18.00 i 22.30)* <i>Current Affairs Programmes (peak hours 18.00-22.30)*</i>	30 awr y flwyddyn <i>30 hours per annum</i>	56 awr <i>56 hours</i>
Newyddion (holl oriau) <i>News (all hours)</i>	200 awr y flwyddyn <i>200 hours per annum</i>	232 awr <i>232 hours</i>
Newyddion (oriau brig 18.00 i 22.30) <i>News (peak hours 18.00-22.30)</i>	150 awr y flwyddyn <i>150 hours per annum</i>	178 awr <i>178 hours</i>
Un rhaglen newyddion ddyddiol yn ystod yr oriau brig* <i>One daily news programme during peak hours*</i>	1 rhaglen <i>1 programme</i>	1 rhaglen <i>1 programme</i>
Isdeitlo <i>Subtitling</i>	71%	76.3%
Disgrifiad Sain <i>Audio Description</i>	8%	9.7%
Arwyddo <i>Signing</i>	2%	2%

- Lle mae oriau brig yn cael eu diffinio fel 18:00-22:30/*Peak hours are defined as 18.00 – 22.30*
- Gall y canlyniadau newid ar ol archwiliad y cyfrifon/*Results subject to change following Account audit*